COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 25 GORFFENNAF 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

RM Granville

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| J P D Blundell | H J David | S J Griffiths | RL Penhale-Thomas |
| T Thomas | A Williams | AJ Williams | E D Winstanley |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

GH Haines a M L Hughes

Claire Marchant - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Councillor Eugene Caparros | Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Cynghorydd Melanie Jayne | Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai |

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

| | |
|---|---|
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |
| Martin Morgans | Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro/ Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Cyng F D Bletsoe – Eitem Agenda 5 – Personol – Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Heronsbridge
Cyng HJ David – Eitemau Agenda 5,6,7,8 a 9 – Rhagfarnol – yn flaenorol yn Arweinydd y Cabinet yn gwneud penderfyniadau hyd at fis Mai 2024.
Cyng JPD Blundell – Eitemau Agenda 5,6,7 ac 8 – Rhagfarnol – yn flaenorol yn Arweinydd y Cabinet yn gwneud penderfyniadau hyd at fis Mai 2024.
Cyng AJ Williams – Eitemau Agenda 5, 6 a 7 – Personol – Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Gynradd Coety.
Cyng ED Winstanley – Eitemau Agenda 6, 7 a 8 – Personol – Cyflogaeth – Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

Cyng J Gebbie – Eitem Agenda 5 – Personol – Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.

## 114. Penodi Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br>Penodwyd F D Bletsoe yn Gadeirydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 115. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 fel rhai gwir a chywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 116. Alldro Cyllideb Refeniw 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br>Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am ragor o wybodaeth:<br><br>**Argymhellion**<br>1. Cafwyd **argymhelliad** gan y Pwyllgor, yn ychwanegol i sicrhau arbedion sylweddol mewn gwariant refeniw, dylid rhoi ystyriaeth i roi rheolaeth ar, ac ail-flaenoriaethu, gwariant cyfalaf; a thra bod yna werth o bosib mewn cyflwyno moratoriwm ar brosiectau cyfalaf newydd, mae'n bwysig hefyd peidio colli'r cyfleoedd am gyllid grant, y cyfle i fuddsoddi mewn prosiectau ysgolion, neu ariannu gwaith hanfodol.<br><br>2. Cafwyd **argymhelliad**, o ystyried y diffyg sylweddol ar gyfer Digartrefedd, y dylid ystyried dull gwahanol o bosib, gan gynnwys sbardun anreddfol o gyfalaf, i roi'r gyllideb yn ôl ar y trywydd cywir.<br><br>3. Mynegwyd pryderon ymhlith yr aelodau ynghylch a yw'r Cynllun Gweithredu Pum Pwynt tyn ateb boddhaol i'r sefyllfa bresennol gan **argymell** y dylid cael diweddariad ar y gweithrediadau o'r pum pwynt fel adroddiad i'r pwyllgor craffu mewn cyfarfod yn y dyfodol agos o'r COSC.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br>4. Trafododd yr aelodau bod angen gwerthuso'r sefyllfa gyllidol yn ofalus o ran yr arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor, a thra bod y Cyngor wedi bod yn ofalus iawn wrth gronni'r arian wrth gefn yn y gorffennol, adnodd prin iawn ydynt yn y sefyllfa sydd ohoni, ac mae hi'n bwysig iawn cyfyngu ar y graddau y bydd y Cyngor yn ddibynnol ar yr arian wrth gefn wrth geisio sicrhau cyllideb gytbwys eleni.<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am grynodeb o'r sefyllfa bresennol o'r arian wrth gefn gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid.<br><br>5. Trafododd yr aelodau ei bod hi'n dod yn fwyfwy anodd i wahanu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf gan fod pwysau ar y ddwy gyllideb a bod un yn effeithio ar y llall.<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am fanylion sefyllfa bresennol y prosiectau cyfalaf gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hymrwymo'n gytundebol ac felly'n amhosib eu hail-flaenoriaethu. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 117. Monitro Cyllideb 2024-25 - Rhagolwg Refeniw Chwarter 1

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am ragor o wybodaeth:<br><br>**Argymhellion**<br><br>6. O ystyried alldro'r gyllideb ar gyfer 2023-24 a'r rhagolygon sy'n dod i'r amlwg ar gyfer refeniw 2024-25, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid gwerthuso gwytnwch y broses o osod y gyllideb bresennol, a hynny ar frys.<br><br>7. O gofio'r pwysigrwydd o beidio â gorfod cyflwyno hysbysiad Adran 114 yn y dyfodol, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i benodi 'comisiynwyr mewnol' i reoli cyllidebau rhai cyfarwyddiaethau neilltuol.<br><br>8. Y difffygion cyllideebol mewn ysgolion - mae 75% ohonynt mewn diffyg ac mae'r cyfanswm ychydig dros £5 miliwn – ac maent yn risg gorfforaethol i'r Cyngor. Gan mai gwirfoddolwyr yw llywodraethwyr ysgolion, ac o ystyried baich eu cyfrifoldebau, mae angen gwella'r cymorth a roddir iddynt. O ganlyniad, **argymhellodd** yr Aelodau y canlynol:<br><br>a. Mae gwir angen archwilio'r set sgiliau angenrheidiol ac anghenion hyfforddiant llywodraethwyr yr ysgolion.<br>b. A oes ffyrdd y gellid gwella'r gefnogaeth a ddarperir i lywodraethwyr ysgolion drwy wneud defnydd o unigolion sydd wedi cael rolau arweinyddol proffesiynol mewn ysgolion gan felly ddeall beth ellid ac y dylid ei wneud.<br>c. Dylid felly ddefnyddio'r ystyriaeth honno drwy roi gwahoddiad i lywodraethwyr ysgolion i arsylwi ac yn achlysurol gyfrannu i gyfarfodydd o SOSC 1.<br>d. Y dylai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc baratoi briffiad i lywodraethwyr ysgolion (fel y rhai a ddarperir i benaethiaid) i'w helpu i ddeall y cyd-destun ehangach o'u swydd mewn sefyllfa gyllidol heriol. |

| | |
|---|---|
| | 9. O ystyried y risg gorfforaethol ynghlwm â'r sefyllfa gyllidol mewn ysgolion, **argymhellodd** y Pwyllgor bod yna angen brys i ystyried statws y mater hwn fel rhan o'r Gofrestr Risg ac a ddylid gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) ei ymchwilio.<br><br>10. O ystyried y bydd y Cyngor yn derbyn, ar y gorau, setliad ariannol gwastad (sy'n cynrychioli 3% o leihad yn y gyllideb refeniw) gan Lywodraeth Cymru eleni, **argymhellodd** yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i nodi'r pryderon ynghylch hyn ac i ofyn am fwy o wybodaeth ar eu dull at y dyfodol wrth gyllido llywodraethau lleol.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>11. **Gofynnodd** y Pwyllgor i astudiaethau achos o werth ymyrraeth gynnar mewn gofal oedolion a phlant, gael eu rhannu rhwng aelodau o'r Pwyllgor.<br><br>12. **Gofynnodd** y Pwyllgor am sesiwn friffio holl-aelodau ar Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hyrwyddo gwaith cydweithredol gyda'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr a phlant. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 121. Perfformiad Diwedd y Flwyddyn Chwarter 4, 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am ragor o wybodaeth:<br><br>**Argymhellion**<br><br>13. **Argymhellodd** y Pwyllgor, yn sgil y sefyllfa gyllidebol argyfyngus, bod angen ystyried fel mater o frys y cydbwysedd priodol rhwng sicrhau arbedion cynaliadwy, a pherfformiad. |

| | |
|---|---|
| | 14. Mynegodd y Pwyllgor bod salwch staff, problemau wrth recriwtio ac ymddeoliadau cynnar yn parhau'n risgiau i'r Cyngor, yn enwedig pan fydd prinder staff ac achosion o salwch yn bodoli law yn llaw, ac **argymhellodd** y dylid rhoi ystyriaeth i effaith y rhain ar y cyd er mwyn ceisio osgoi problemau difrifol posib.<br><br>15. **Argymhellodd** y Pwyllgor bod angen cyhoeddi gwybodaeth gadarnhaol ynghylch perfformiad pan fydd newyddion da yn codi.<br><br>16. **Argymhellodd** y Pwyllgor bod angen ar frys i'r Cabinet ac Uwch Swyddogion gynnal ymarfer pwrpasol, trylwyr a strategol i adnabod y blaenoriaethau pwysicaf – wrth waredu neu ohirio y rhai llai pwysig.<br><br>17. **Argymhellodd** y Pwyllgor bod angen adolygu'r nifer o amcanion llesiant, ynghyd â'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig, a bod angen rhestr gyfyngedig iawn o flaenoriaethau i allu llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 119. Hunanasesiad 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion:<br><br>**<u>Argymhellion</u>**<br><br>18. O ystyried bod yna amryw o ddangosyddion perfformiad o fewn yr amcan llesiant cyntaf, Diogelu ein Rhai Mwyaf Bregus, lle mae'r perfformiad yn anfoddhaol neu ddim yn dda iawn, **argymhellodd** y Pwyllgor bod angen ymdrin â'r rhain fel mater o frys.<br><br>19. **Argymhellodd** y Pwyllgor, gan fod rhai o'r Dangosyddion Perfformiad – mewn perthynas â digartrefedd er enghraifft - wedi dod o Lywodraeth Cymru ac yn anaddas bellach yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth, y byddai hi'n briodol i swyddogion gysylltu â Llywodraeth Cymru i weld a fyddent yn fodlon ystyried eu hadolygu, ac y byddai canlyniad y trafodaethau hynny'n cael eu rhannu â'r Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol agos. |

| | |
|---|---|
| | 20. **Gofynnodd** y Pwyllgor i Aelodau o'r Cabinet gael eu gwahodd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 9 Medi 2024, i gael trosolwg o'u hymagwedd strategol a'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 120. Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Cynghorydd Alex Ulberini-Williams yn cael ei enwebu i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu fel unigolyn gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar faterion Rhianta Corfforaethol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 121. Enwebiadau Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod pryderon wedi eu crybwyll gan Aelodau am y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg. Wrth gydnabod eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddwyn y PSB i gyfrif a nodi bod budd mewn sicrhau bod yna ddull cydweithredol gydag awdurdodau lleol eraill, rhaid edrych ar allbwn y PSB oherwydd ymddengys nad oes unrhyw beth o sylwedd y gall JOSC ei graffu.<br><br>Cytunwyd na fyddai unrhyw Aelodau yn cael eu henwebu yn y cyfarfod hwn ac y byddai Swyddogion yn cyflwyno pryderon y Pwyllgor ac yn ceisio amlygu gwelliannau y gellid eu gwneud er mwyn sicrhau y byddai hi o fudd i Aelodau fod yn rhan o'r JOSC. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 122. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A gan nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B.<br><br>Fel y cynghorwyd, y byddai'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y tri Phwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.<br><br>Bod angen edrych ar frys ar berfformiad y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwnaed gais am adroddiad.<br><br>Y dylid adolygu'r Cynllun Gweithredu Pum Pwynt gan adrodd arno mewn cyfarfod yn y dyfodol agos o'r COSC. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

## 123. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Gorffennaf 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:48.